# LC1175

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gorchymyn Cychwyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhif 3) (Cymru) 2005

Mae’r Gorchymyn yma’n cychwyn darpariaethau sy’n estyn dyletswydd yr awdurdodau lleol o ran ystyried sylwadau i gynnwys sylwadau sy’n cael eu cyflwyno ynghylch gwarcheidiaeth arbennig; darpariaethau mewn perthynas â’r rheoliadau y caiff y Cynulliad eu gwneud ynghylch ymdrin â chwynion am swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol; a darpariaeth sy’n diwygio’r diffiniadau o sefydliadau yn Neddf Safonau Gofal 2002. Mae hefyd yn cychwyn darpariaethau sy’n eu gwneud yn ofynnol i’r awdurdodau lleol roi cymorth i bersonau a fydd yn cyflwyno sylwadau o dan Ddeddf Plant 1989.

## Rheol Sefydlog 11.7

Does dim pwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Mae mân wall fformadu y byddai’n addas ei gywiro wrth gyhoeddi’r Gorchymyn wedi’i fynegi i’r cyfreithiwr a’i drafftiodd.

**Glyn Davies AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**22 Tachwedd 2005**